# Llywodraeth Cymru
# Asesiad Effaith Integredig Strategol
# Asesiad Terfynol

Ionawr 2026

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53680, ISBN digidol 978-1-83715-937-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

*Daw'r Gyllideb Derfynol hon yn ystod cyfnod economaidd a chyllidol heriol parhaus i Gymru. Dros y blynyddoedd, mae chwyddiant cynyddol, pwysau cynyddol ar gyflogau, a galw cynyddol am wasanaethau hanfodol wedi rhoi straen ar gyllid cyhoeddus. Rhaid inni hefyd wynebu'r angenrheidrwydd hirdymor i fuddsoddi mewn atal, cynaliadwyedd a gwydnwch - gan sicrhau bod penderfyniadau a wneir heddiw yn cefnogi llesiant cenedlaethau'r dyfodol.*

*Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) yn dangos sut rydym wedi cydbwyso'r blaenoriaethau hyn - gan sicrhau bod y dewisiadau a wnawn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i degwch, cynaliadwyedd a gwydnwch.*

*Eleni, rydym wedi cryfhau'r broses SIIA yn sylweddol, gan symud o ymarfer cymharol statig i ddull mwy agored, cydweithredol. Gan ddefnyddio gweithdai a dargedwyd a gwaith ymgysylltu trawsbortffolio, rydym wedi gallu nodi effeithiau cronnol, profi camau lliniaru a chysylltu tystiolaeth â phenderfyniadau yn well. Mae'r gwelliannau hyn wedi cyfoethogi'r sgyrsiau sy'n sail i'r gyllideb ac wedi darparu gwybodaeth ddyfnach o ran sut mae dewisiadau yn effeithio ar wahanol gymunedau a sectorau.*

*Er bod hyn yn gynnydd gwirioneddol, rydym yn cydnabod bod rhagor i'w wneud, yn enwedig o ran ymgorffori profiad bywyd a chryfhau gwaith ymgysylltu y tu hwnt i'r llywodraeth.*

*Mae'r asesiad hwn yn adeiladu ar yr asesiad interim a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Ddrafft ac yn esbonio sut y gwnaed ein penderfyniadau yn dilyn y gwaith craffu ac ymgysylltu a fu rhwng camau'r Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol.*

*Trwy gytundeb ar y gyllideb gyda Phlaid Cymru, rydym wedi gallu diogelu llywodraeth leol a gwasanaethau iechyd, gan ddarparu sefydlogrwydd i'r gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt fwyaf. Bydd y bartneriaeth hon yn darparu cyllid ychwanegol i gynghorau a'r GIG, gan gefnogi ein hysgolion a'n darpariaeth rheng flaen ar adeg pan fo'r galw a'r pwysau yn parhau i dyfu.*

*Mae atal yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Rydym yn cydnabod y bydd buddsoddi nawr, hyd yn oed pan fo cyllidebau yn dynn, yn helpu i leihau angen yn y dyfodol ac yn osgoi costau uwch yn ddiweddarach. Mae'r egwyddor hon yn treiddio drwy ein penderfyniadau, o gefnogi ymyrraeth gynnar mewn iechyd a gofal cymdeithasol i gryfhau gwasanaethau lleol sy'n helpu cymunedau i ffynnu.*

*Mae'r asesiad yn nodi effaith gronnol y penderfyniadau hyn, wedi'i lywio gan dystiolaeth a gwaith ymgysylltu ledled Cymru. Mae'n tanlinellu ein penderfyniad i leihau anghydraddoldeb, cryfhau cymunedau, a buddsoddi mewn dyfodol gwyrddach a thecach.*

**Mark Drakeford AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**

## Tabl Cynnwys

Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg...2

Cyflwyniad ....................................................................4

Strategaeth y Gyllideb 2026-27 ............................................5

Cydweithio a chynnwys .......................................................6

Sylfaen Dystiolaeth.............................................................11

Effeithiau Penderfyniadau Allweddol..................................13

Penderfyniadau Gwario ag Effeithiau Negyddol neu Anghymesur a Nodwyd .......................................................22

Casgliad.........................................................................24

## Cyflwyniad

Yr Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) yw'r dull y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i asesu effaith ein penderfyniadau gwario, yn enwedig mewn perthynas â chydraddoldeb, cynaliadwyedd a llesiant. Mae'n ein helpu i ddeall yn well sut mae'r gyllideb yn debygol o effeithio ar wahanol grwpiau o bobl yng Nghymru ac yn helpu i sicrhau bod ein cyllid yn cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'n ystyried yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ei wario drwy ei Chyllideb ar gyfer 2026-27, a sut y gallai newidiadau i gynlluniau gwariant blaenorol effeithio ar rai pobl yn fwy nag eraill. Mae'r SIIA yn dadansoddi effeithiau cronnol a thrawsbynciol penderfyniadau cyllidebol a wneir gan Weinidogion Cymru, ond nid yw'n disodli'r Asesiadau Effaith manwl a gynhelir ar bolisïau, deddfwriaeth a strategaethau allweddol newydd. Dylid darllen yr SIIA ochr yn ochr â'r Dadansoddiad Dosbarthiadol o'r Gyllideb sy'n dangos sut mae gwariant yn cael ei ddosbarthu ar draws dosbarthiad incwm aelwydydd.

Mae'r SIIA yn darparu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'n helpu i ddeall sut mae dewisiadau ynghylch dyrannu adnoddau yn effeithio ar wahanol gymunedau. Trwy dynnu sylw at le y gall effeithiau anghymesur ddigwydd, mae'n ein galluogi i nodi a mynd i'r afael â risgiau posibl yn gynnar yn y broses. Er nad yw'r SIIA ei hun yn dileu'r effeithiau hyn, mae'n arfogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau â'r mewnwelediad sydd ei angen i'w lliniaru a gwneud dewisiadau mwy gwybodus, teg.

Yn ystod y blynyddoedd blaenorol, cyhoeddwyd yr SIIA yn flynyddol yn y Gyllideb Ddrafft. Ar gyfer Cyllideb 2026-27, mabwysiadwyd dull newydd, sef cyhoeddi asesiad interim yn y Gyllideb Ddrafft a chyhoeddi asesiad terfynol yn y Gyllideb Derfynol.

Rydym hefyd wedi mabwysiadu dull mwy cydweithredol a rhyngweithiol o ddatblygu'r SIIA, gan symud i ffwrdd o broses gymharol statig ar bapur i un sy'n meithrin deialog gyfoethocach ac yn archwilio effeithiau dyfnach. Trwy gyfres o weithdai yn ystod y gwaith paratoi ar gyfer y Gyllideb Ddrafft, gwnaethom ganolbwyntio ar y dystiolaeth sy'n sail i benderfyniadau gwario, gan alluogi cyfranogwyr i rannu safbwyntiau a herio rhagdybiaethau mewn amser real. Mae'r newid hwn wedi caniatáu sgyrsiau mwy deinamig sy'n torri ar draws Prif Grwpiau Gwariant (MEGs), gan dynnu sylw at ryngddibyniaethau a datgelu mewnwelediadau a allai fod wedi'u colli fel arall. Cyn cytuno ar y Gyllideb Derfynol, cynhaliwyd gweithdai pellach a dargedwyd i archwilio effeithiau cadarnhaol a negyddol penderfyniadau allweddol, nodi camau lliniaru, ac ystyried sut mae'r pum ffordd o weithio yn cael eu defnyddio. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod effeithiau'n cael eu hasesu drwy gydol y broses o gynllunio'r gyllideb a bod penderfyniadau a wneir rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol yn cael eu llywio gan ddealltwriaeth fwy cyfannol o effeithiau trawsbynciol.

## Strategaeth y Gyllideb 2026-27

Mae'r strategaeth a nodir yn y Gyllideb Ddrafft yn parhau i fod ar waith ar gyfer y Gyllideb Derfynol. Mae ein dull yn parhau i flaenoriaethu sefydlogrwydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, gan ymateb i'r pwysau mwyaf dybryd a nodwyd yn ystod y gwaith craffu ac ymgysylltu. Mae hyn yn golygu cynnal yr ymrwymiadau a wnaed yn y Gyllideb Ddrafft a sicrhau bod y cyllid ychwanegol sydd ar gael yn y Gyllideb Derfynol yn cryfhau'r hyn a gyflawnir yn hytrach na newid cyfeiriad.

Mae'r Gyllideb Derfynol wedi'i sicrhau drwy gytundeb gyda Phlaid Cymru. Mae'r cytundeb hwn yn darparu'r sicrwydd sydd ei angen i basio'r Gyllideb a gweithredu'r cynlluniau gwariant yn llawn. Mae'n cadw'r strategaeth a nodir yn y Gyllideb Ddrafft drwy ategu buddsoddiadau â blaenoriaeth - yn fwyaf arbennig cymorth i'r GIG a llywodraeth leol - gan alluogi ymatebion wedi'u targedu i chwyddiant a phwysau ar gyflogau ar draws y Prif Grwpiau Gwariant (MEGs). Mae’r cytundeb hwn yn sicrhau fframwaith cyllidol sefydlog, gan ganiatáu i adrannau a phartneriaid cyflawni gynllunio yn hyderus a chynnal gwasanaethau hanfodol.

Trwy gyrraedd y cytundeb hwn, rydym wedi lliniaru'r risgiau real iawn sy'n gysylltiedig â methu â phasio'r Gyllideb. Mae risgiau o'r fath yn cynnwys tarfu ar daliadau grant, oedi i setliadau llywodraeth leol a darparu gwasanaethau, mwy o ansicrwydd i ddarparwyr y GIG a gofal cymdeithasol, a'r angen posibl am fesurau wrth gefn tymor byr a allai leihau gwerth am arian. Mae cymeradwyaeth y Senedd yn osgoi'r canlyniadau hynny, yn sicrhau parhad o ran cyllid, ac yn sicrhau y gellir bodloni rhwymedigaethau statudol, gan ddiogelu swyddi, diogelu gwasanaethau rheng flaen, a chefnogi pontio llyfn i dymor nesaf y Senedd.

Nid yw'r mwyafrif helaeth o Gyllideb Llywodraeth Cymru wedi newid ers y llynedd. Aseswyd y dyraniadau hyn yn SIIA 2025-26 ac maent yn parhau i adlewyrchu ein blaenoriaethau tymor hir. Felly, mae'r SIIA hwn yn canolbwyntio ar y penderfyniadau newydd a wnaed ers y Gyllideb Ddrafft, sy'n cynrychioli cyfran fach o'r gwariant cyffredinol, ond sy'n arwyddocaol wrth fynd i'r afael â risgiau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.

Ers i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) wedi diweddaru ei rhagolygon ar gyfer 2026–27, gyda disgwyl i chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros fod yn 2.2% ar gyfartaledd, a rhagolwg twf cyflogau o 3.2%. Mae'r newidiadau hyn wedi cynyddu'r pwysau ar gostau ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Er mwyn cynnal y strategaeth a nodir yn y Gyllideb Ddrafft, rydym wedi darparu cyllid ychwanegol i bob MEG i adlewyrchu'r rhagolygon hyn wedi'u diweddaru. Mae hyn yn sicrhau y gall adrannau barhau i ddarparu eu gwasanaethau craidd heb gyfaddawdu ar ansawdd na mynediad.

Ochr yn ochr â'r codiadau hyn, mae'r Gyllideb Derfynol yn dyrannu adnoddau a chyllid cyfalaf pellach i feysydd â blaenoriaeth a nodwyd yn ystod y gwaith craffu ac ymgysylltu. Mae'r rhain yn cynnwys diogelu gwasanaethau bysiau, cefnogi prentisiaethau, cynyddu cyfranogiad mewn addysg bellach, gwella ansawdd dŵr, a chynnal yr ystad addysg. Mae cyllid ychwanegol ar gyfer iechyd a llywodraeth leol - y cytunwyd arno fel rhan o'r cytundeb ar y gyllideb - yn rhoi sicrwydd i'r GIG a'r cynghorau, gan eu galluogi i gynnal gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Mae'r dull hwn yn sicrhau y gallwn gyflawni ein hamcanion ar gyfer 2026–27 gan osod sylfaen sefydlog ar gyfer y Senedd nesaf.

## Cydweithio a chynnwys

Mae ein SIIA 2026–27 wedi'i ddatblygu trwy broses fwy cydweithredol, ailadroddol nag yn y blynyddoedd blaenorol. Gan adeiladu ar gyngor y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb a gwaith craffu'r Senedd, rydym yn symud y tu hwnt i asesiad llinol sengl i raglen ymgysylltu barhaus a ddaeth ag arbenigedd polisi, dadansoddol a chyflawni at ei gilydd ar sawl pwynt yng nghylch y gyllideb. Cryfhaodd hyn ansawdd y dystiolaeth a'n dealltwriaeth o effeithiau cronnol a thrawsbortffolio.

**Cyd-ddylunio a herio:** Darparodd y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb her strwythuredig ar gwmpas, dulliau a thryloywder. Cyfrannodd yr aelodau dystiolaeth a gwnaethant gyflwyno mewnwelediadau mewn gweithdai SIIA, gan ein helpu i fireinio ffocws, datgelu bylchau, a gwella'r gallu i olrhain o dystiolaeth i benderfyniad.

**Ymgorffori profiad bywyd:** Yn dilyn argymhelliad y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, rydym wedi dechrau cysylltu â rhwydweithiau staff Llywodraeth Cymru i archwilio sut y gallwn gryfhau'r gwaith ymgysylltu a gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol, yn enwedig ar gyfer 2027–28. Er bod y gwaith hwn ar gam cynnar sy'n golygu bod cynnydd yn gyfyngedig, bydd y camau cychwynnol hyn yn ein helpu i adeiladu'r sylfeini ar gyfer canolbwyntio ar brofiad bywyd, yn enwedig i bobl â nodweddion gwarchodedig a'r rhai sy'n wynebu mwy o risg economaidd-gymdeithasol, mewn prosesau cyllidebol yn y dyfodol.

**Sgyrsiau wedi'u hwyluso a'u targedu:** Ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, fe wnaethom gynnull cyfres o sgyrsiau wedi'u hwyluso a'u targedu a ddaeth â swyddogion polisi ac arweinwyr tystiolaeth ar draws portffolios at ei gilydd.

Cynlluniwyd y sesiynau hyn yn benodol er mwyn:

- **Atgyfnerthu cysylltiadau** rhwng meysydd polisi cysylltiedig lle mae effeithiau'n cael eu rhannu neu'n rhyngddibynnol.
- **Holi am effeithiau cronnol** ar draws gwasanaethau a grwpiau, gan gynnwys lle gall sawl penderfyniad ddwysáu anfantais neu, i'r gwrthwyneb, ddarparu cydfanteision.
- **Archwilio a phrofi opsiynau ymarferol ar gyfer lliniaru effeithiau negyddol,** gan nodi unrhyw heriau cyflawni a allai effeithio ar weithredu cyn i benderfyniadau'r Gyllideb Derfynol gael eu gwneud.

Fe wnaethom ddewis themâu lle roedd (i) gwaith craffu ac adborth rhanddeiliaid yn tynnu sylw at risgiau neu gyfleoedd sylweddol, (ii) tystiolaeth yn dangos effeithiau anghymesur neu drawsbynciol a (iii) penderfyniadau cyllideb yn rhychwantu sawl portffolio, gan greu'r cyfle mwyaf ar gyfer effeithiau cronnol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol.

**Iechyd ataliol** – i gysylltu gofal cymdeithasol, ansawdd tai, addysg a gwasanaethau cymunedol â galw a chanlyniadau'r GIG, ac archwilio'r cydbwysedd rhwng gwariant acíwt a gwariant ataliol.

**Y celfyddydau a diwylliant** – i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cyfranogiad diwylliannol a rôl y sector o ran llesiant, sgiliau, y Gymraeg, a thwf lleol.

**Y Gymraeg** – ystyried sut mae anghenion y Gymraeg yn cael eu hymgorffori ar draws pob MEG, gan sicrhau bod polisi iaith a phenderfyniadau cyllido gyda'i gilydd yn cefnogi canlyniadau Cymraeg 2050. Roedd hyn yn cynnwys edrych y tu hwnt i raglenni cymunedol, addysg a diwylliant i ddeall sut mae gwasanaethau a buddsoddiadau ar draws portffolios yn cyfrannu at fynediad a'r defnydd o'r Gymraeg ar draws rhanbarthau a grwpiau.

**Cysylltu cymunedau** – i drafod y cyfnewidiadau rhwng penderfyniadau cyllido ar gyfer bysiau a rheilffyrdd, a sut mae'r rhain yn croestorri â meysydd polisi ehangach fel mynediad at addysg, cyflogaeth a gwasanaethau.

**Llywodraeth leol** – i archwilio'r pwysau presennol sy'n wynebu awdurdodau lleol a'r effeithiau ar wasanaethau statudol ac ataliol i lawr y gadwyn.

**Cyfle i bob teulu** – galluogi ffocws ar hawliau plant ac effaith tlodi aelwydydd. Roedd y thema hon yn ystyried gofal plant, addysg, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), sgiliau, mesurau o ran costau byw a manteisio i'r eithaf ar incwm.

**<u>Yr hyn a newidiodd yn sgil sgyrsiau wedi'u hwyluso</u>**

Gwnaeth y sgyrsiau hogi ein safbwyntiau ac arwain at welliannau penodol yn yr SIIA ac o ran y cyngor i Weinidogion. Mewn sawl maes, fe wnaethant lywio'n uniongyrchol ddyraniadau'r Gyllideb Derfynol a dargedwyd neu helpu i fireinio sut y dylid defnyddio cyllid i liniaru risg, gwarchod rhag anfanteision cronnol, a diogelu parhad gwasanaethau.

### 1) Cysylltu Cymunedau

**Yr hyn a ddysgwyd o'r sgyrsiau:** Mae dewisiadau trafnidiaeth rhanbarthol (bysiau a rheilffyrdd) yn croestorri â mynediad at addysg, sgiliau, apwyntiadau iechyd a chyflogaeth—yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac i bobl ifanc a phobl anabl. Fe wnaethom olrhain sut mae dylunio cymhorthdal bysiau, cludiant i'r ysgol/addysg bellach, a pharamedrau setliad llywodraeth leol yn rhyngweithio â pherchnogaeth ceir isel ac amseroedd teithio hir.

**Dyraniadau cysylltiedig:**

- £5m o adnoddau i ddiogelu gwasanaethau bysiau a lleihau targed effeithlonrwydd Trafnidiaeth Cymru (TrC) i atal toriadau i wasanaethau; £10m o gyfalaf ar gyfer buddsoddiad mewn depos a fflydoedd i gefnogi masnachfreinio a chystadleuaeth deg i weithredwyr.
- £65m o adnoddau i ariannu'r cynllun rhyddhad trosiannol ar gyfer ardrethi annomestig, gan sicrhau y gall awdurdodau lleol gynnal parhad gwasanaethau tra bod biliau'n addasu.
- £20m o gyfalaf ar gyfer cynnal a chadw'r ystad addysg, gan gefnogi mynediad diogel ac amgylcheddau dysgu.

### 2) Iechyd ataliol

**Yr hyn a ddysgwyd o'r sgyrsiau:** Dangosodd tystiolaeth ar dai llaith a gwael, oedi wrth ryddhau cleifion, a chapasiti cymunedol gydfanteision ataliol clir o wariant gofal cymdeithasol a thai i ganlyniadau iechyd, a'r risgiau o danfuddsoddi sy'n gwaethygu pwysau ar y GIG.

**Dyraniadau cysylltiedig:**

- £180m o gynnydd mewn adnoddau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sefydlogi gwasanaethau craidd a mynd i'r afael â phwysau'r galw/costau (y cytunwyd arno yn y cytundeb ar y gyllideb).
- £2.6m o adnoddau ar gyfer Tai i dargedu cymorth ac atal digartrefedd, cynorthwyo llwybrau rhyddhau cleifion o'r ysbyty a lleihau pwysau i lawr y gadwyn.
- £112.8m o gynnydd mewn adnoddau i lywodraeth leol (cynnydd o 4.5% ar gyfartaledd yn y setliad yn gyffredinol), cefnogi gwasanaethau statudol ac ataliol gan gynnwys gofal cymdeithasol a £0.5m o gyfalaf ychwanegol ar gyfer cyfleusterau chwaraeon

### 3) Y celfyddydau, diwylliant a'r Gymraeg

**Yr hyn a ddysgwyd o'r sgyrsiau:** Mae cyllid diwylliannol a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn cefnogi defnydd o'r iaith, gwaith ymgysylltu â phobl ifanc, llesiant, cyflenwad o sgiliau creadigol, ac economïau lleol, yn enwedig pan fo mynediad i leoliadau/darpariaeth yn gyfyngedig.

**Dyraniadau cysylltiedig:**

- £3.1m o gyfalaf ar gyfer rhaglenni Cymraeg 2050 i gefnogi'r Urdd, yr Eisteddfod a'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ehangu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg anffurfiol a llwybrau dysgu gydol oes.
- £4m o gyfalaf i'r celfyddydau, diwylliant a chwaraeon i fuddsoddi yn y Llyfrgell Genedlaethol, amgueddfeydd a llyfrgelloedd lleol yn ogystal â rhaglenni drwy Gyngor Celfyddydau Cymru a Chwaraeon Cymru i ehangu mynediad a chyfranogiad.

**4) Llywodraeth leol a chyfle i bob teulu**

**Yr hyn a ddysgwyd o'r sgyrsiau:** Mae dewisiadau o ran y setliad a grantiau yn effeithio ar ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), digonolrwydd gofal plant, presenoldeb a chyrhaeddiad, yn enwedig mewn cymunedau ag anghenion uwch. Mae setliad mwy sefydlog yn cefnogi gwaith cynllunio amlflwyddyn a pharhad gwasanaethau.

**Dyraniadau cysylltiedig:**

- £4.2m o adnoddau o fewn Addysg ar gyfer darparu systemau ADY a chysondeb cenedlaethol (gan adeiladu ar £9.1m yn y Gyllideb Ddrafft).
- £5m o adnoddau i gynyddu cyfranogiad mewn addysg bellach (16–19), lliniaru rhestrau aros a gwella llwybrau cynnydd i ddysgwyr.
- £112.8m o gynnydd mewn adnoddau i lywodraeth leol i gefnogi ysgolion, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymunedol.

**5) Yr hinsawdd, materion gwledig ac ansawdd yr amgylchedd**

**Yr hyn a ddysgwyd o'r sgyrsiau:** Mae effeithiau cronnol llifogydd, ansawdd yr amgylchedd a chynaliadwyedd economaidd arfordirol yn gofyn am fuddsoddiad cydgysylltiedig mewn atal risg, gwaith gorfodi, a chapasiti'r sector.

**Dyraniadau cysylltiedig:**

- £3.8m o gynnydd cyfalaf i gyrraedd y lefel uchaf erioed o £83.8m ar gyfer perygl llifogydd ac erydu arfordirol, gan ddiogelu cymunedau a lleihau costau yn y dyfodol.
- £5m (adnoddau a chyfalaf gyda'i gilydd) ar gyfer gwaith gorfodi ansawdd dŵr (parhad ac adolygu cydymffurfiaeth a arweinir gan wybodaeth, a buddsoddi mewn systemau).
- £1.3m gyda'i gilydd (£0.6m o adnoddau; £0.7m o gyfalaf) ar gyfer pysgodfeydd i gefnogi gwaith diogelu'r amgylchedd, capasiti a thwf arfordirol.
- £3.5m ar gyfer cynnydd pellach i Cyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi swyddogaethau statudol ac addasiadau cyfrifyddu.

**6) Sgiliau a gwydnwch economaidd**

**Yr hyn a ddysgwyd o'r sgyrsiau:** Mae cryfhau llwybrau prentisiaethau a chymorth wedi'i dargedu i bobl ifanc ag ADY yn meithrin gwydnwch ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran mynediad i'r farchnad lafur.

**Newidiadau o ganlyniad i'r gyllideb:**

- £5m o adnoddau i brentisiaethau i ddileu pwysau a nodwyd a chynnal y gwaith o gyflawni yn erbyn yr ymrwymiad o 100,000.
- £1m i wella adnoddau ar gyfer Twf Swyddi Cymru+ i wella cymorth i bobl ifanc ag ADY

**<u>Sut y dangosir effaith y newidiadau hyn</u>**

Gwnaeth y sgyrsiau a hwyluswyd wahaniaeth gwirioneddol i'r Gyllideb Derfynol. Fe wnaethant ein helpu i symud o egwyddorion cyffredinol i benderfyniadau ymarferol trwy ddangos lle mae risgiau a chyfleoedd yn ymestyn ar draws gwahanol bortffolios. Gwnaeth y mewnwelediad hwn lywio'r cyngor i Weinidogion a dylanwadu ar sut y dyrannwyd cyllid ychwanegol.

Yn gyntaf, gwnaeth y sgyrsiau wella tryloywder. Fe wnaethant greu cysylltiad clir rhwng tystiolaeth a phenderfyniadau, er mwyn inni allu dangos pam y gwnaethpwyd rhai dyraniadau. Er enghraifft, gwnaeth trafodaethau ar drafnidiaeth wledig dynnu sylw at sut mae gwasanaethau bysiau yn effeithio ar fynediad at addysg a swyddi, a arweiniodd at gyllid ychwanegol ar gyfer cymorthdaliadau bysiau a buddsoddiad mewn depos.

Yn ail, fe wnaethant gryfhau gwaith cydgysylltu ar draws y llywodraeth. Ni all llawer o faterion, megis ansawdd tai, capasiti gofal cymdeithasol, a'r galw ar y GIG, gael eu datrys gan un adran yn unig. Trwy ddod â thimau polisi a chyflawni at ei gilydd, fe wnaethom nodi lle gallai gwariant mewn un maes atal problemau mewn mannau eraill. Dyma pam mae'r Gyllideb Derfynol yn cynnwys buddsoddiad wedi'i dargedu mewn atal digartrefedd a gofal cymdeithasol ochr yn ochr â chyllid iechyd.

Gwnaeth cyflwyno tystiolaeth cydraddoldeb i bob thema dynnu sylw at le y gallai penderfyniadau waethygu effeithiau (er enghraifft, newidiadau trafnidiaeth sy'n effeithio ar deuluoedd incwm isel, pobl ifanc, a phobl anabl) a lle gall camau lliniaru wedi'u targedu ddatgloi manteision lluosog (megis atal cymunedol sy'n cefnogi menywod yn y gweithlu gofal a gwella canlyniadau i bobl hŷn).

Yn olaf, canolbwyntiodd y sgyrsiau y sylw ar atal a chyflawni ymarferol. Fe wnaethant ein helpu i flaenoriaethu cyllid sy'n lleihau costau yn y dyfodol ac yn gwella gwydnwch, megis amddiffyn rhag llifogydd, gwaith gorfodi ansawdd dŵr, a chymorth ar gyfer prentisiaethau. Fe wnaethant hefyd dynnu sylw at heriau o ran cyflawni, gan sicrhau bod dyraniadau ar gyfer materion fel masnachfreinio bysiau a darpariaeth ADY yn realistig ac yn gyraeddadwy.

Mae'r model cydweithredol hwn yn ymgorffori pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Gwnaeth y sgyrsiau a hwyluswyd a gwaith ymgysylltu â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb a rhwydweithiau staff gryfhau cyfranogiad a chydweithio, gan sicrhau bod lleisiau amrywiol yn llywio dewisiadau. Gwnaeth pwyslais clir ar atal a sefydlogrwydd hirdymor lywio penderfyniadau â'r manteision mwyaf i'r system, tra bod cysylltu tystiolaeth ar draws portffolios wedi gwella integreiddio.

Yn fyr, mae'r newidiadau hyn yn dangos sut y gall ymgysylltu cydweithredol arwain at benderfyniadau gwell; penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn drawsbynciol ac wedi'u cynllunio i ddarparu manteision hirdymor i bobl a chymunedau.

## Sylfaen Dystiolaeth

Ategwyd y penderfyniadau a wnaed yn y Gyllideb Ddrafft gan ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth cydraddoldeb macro, dadansoddiad dosbarthol o wariant cyhoeddus yng Nghymru a thystiolaeth gan economegwyr iechyd. Mae manylion am y rhain wedi'u nodi yn yr SIIA Interim.

Dim ond y man cychwyn yw'r Gyllideb Ddrafft, ac felly roedd yn bwysig sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a wnaed fel rhan o'r Gyllideb Derfynol hefyd yn cael eu llywio gan y dystiolaeth a gasglwyd, yn ogystal â thystiolaeth bellach a ddaeth ar gael – er enghraifft drwy'r broses graffu.

Roedd peth o'r dystiolaeth gyffredinol a ddefnyddiwyd yn cynnwys:

- [1]Adroddiad Llesiant Cymru
- [2]Arolwg Cenedlaethol Cymru
- [3]Papur Tystiolaeth Rhagolwg Ariannol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Fe wnaethom hefyd ystyried tystiolaeth wedi'i thargedu sy'n fwy penodol i'r sector mewn perthynas â'r canlynol:

- Addysg statudol (3-16 oed)
- Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant
- Newid Hinsawdd
- Addysg Bellach
- Tai a Digartrefedd
- Trafnidiaeth

**Beth roedd y dystiolaeth yn ei ddweud wrthym**

Mae'r adran hon yn darparu crynodeb lefel uchel o'r dystiolaeth a ystyriwyd yn ystod y broses SIIA. Er na ellir cyhoeddi'r ystod gyfan o dystiolaeth yn llawn, mae'r prif ddata wedi'i amlinellu isod a'i fapio i'r Nodau Llesiant. Mae hyn yn helpu i wneud y cysylltiad rhwng sut mae tystiolaeth yn llywio ein penderfyniadau gwariant i gefnogi gweledigaeth hirdymor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2025.

**<u>Cymru Lewyrchus</u>**

- Mae Cymru yn dal i fod ar ei hôl hi y tu ôl i gyfartaledd y DU o ran allbwn economaidd ac incwm aelwydydd, er bod tlodi incwm cymharol wedi gostwng (22% o'i gymharu â 25% ar ddiwedd y 1990au).
- Mae bylchau cyflogaeth gyda gweddill y DU wedi lleihau; Cynyddodd ymgysylltiad ieuenctid mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant i 86.4% (tuag at y garreg filltir o 90% erbyn 2050).
- Mae effeithiau hirdymor cyfranogiad isel a phresenoldeb gwael mewn addysg wedi arwain at gyrhaeddiad is, cyfleoedd gwaith cyfyngedig, incwm is, iechyd gwael, ac anfantais barhaus.
- Mae cyfranogiad mewn addysg a chyflogaeth wedi gostwng ar draws pob grŵp oedran.
- Mae lefelau cymwysterau'n gwella: 68.6% o'r oedolion o oedran gweithio ar Lefel 3 neu uwch.

[1] Llesiant Cymru 2025 [HTML] | LLYW.CYMRU
[2] Arolwg Cenedlaethol Cymru | LLYW.CYMRU
[3] Papur Tystiolaeth Rhagolwg Ariannol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Cymru Gydnerth**

- Mae bioamrywiaeth wedi dirywio yn y tymor hir ond wedi sefydlogi'n ddiweddar.
- Mae carbon y pridd yn sefydlog ar y cyfan; bu colledion mewn tir âr a choetir llydanddail.
- Mae ansawdd dŵr ac aer wedi gwella dros ddegawdau, er bod risgiau'n parhau.
- Mae cyfraddau lleihau gwastraff ac ailgylchu yn gryf, ond mae'r defnydd o adnoddau yn dal i fod yn anghynaliadwy.
- Cododd capasiti ynni adnewyddadwy yn 2023 (yr uchaf mewn 5 mlynedd), ond yn is na'r brig yn 2015.

**Cymru Iachach**

- Mae disgwyliad oes iach wedi gostwng ers 2011–2013; mae bylchau wedi ehangu rhwng ardaloedd difreintiedig ac ardaloedd cyfoethog.
- Mae babanod â phwysau geni isel wedi cynyddu i 6.3% (yr uchaf a gofnodwyd).
- Mae nifer yr oedolion sydd â dau neu fwy o ymddygiadau iach wedi cynyddu ychydig ar ôl y pandemig; mae ymddygiadau ieuenctid wedi gwella ers 2017.
- Mae llesiant meddyliol oedolion wedi bod yn sefydlog; mae llesiant ieuenctid wedi dirywio gyda bylchau cyfoeth yn ehangu.
- Mae cyflwr tai wedi gwella: Roedd 82% o anheddau yn rhydd o beryglon difrifol yn 2017-18 (i fyny o 71% yn 2008).

**Cymru sy'n Fwy Cyfartal**

- Mae'r bwlch cyflog rhywedd wedi lleihau i 1.9%; mae'r bylchau cyflog ethnigrwydd ac anabledd yn gyfnewidiol.
- Mae'r bylchau cyflogaeth wedi lleihau ar gyfer pobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig.
- Mae lefelau tlodi yn sefydlog, gydag oddeutu 1 o bob 5 o bobl yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae plant (31%), pobl mewn teuluoedd â pherson anabl (25%), a theuluoedd lle mae pennaeth yr aelwyd yn dod o grŵp Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol (50%) yn fwy tebygol o fod mewn tlodi (20%); plant, pobl anabl, a phobl ethnig leiafrifol sy'n cael eu heffeithio fwyaf.
- Mae llesiant meddyliol wedi dirywio ers 2016–2017; mae pobl hŷn a phobl nad ydynt yn anabl wedi adrodd gwell llesiant.

**Cymru o Gymunedau Cydlynus**

- Gostyngodd dangosyddion cydlyniant cymunedol yn ôl tuag at lefelau cyn y pandemig.
- Cynyddodd lefelau gwirfoddoli y tu hwnt i'r garreg filltir genedlaethol.
- Bu ychydig o leihad mewn atal digartrefedd; roedd lefelau cysgu allan yn uwch.
- Mae cyfraddau dioddefwyr trosedd yn sefydlog, ond cododd pryderon y cyhoedd am droseddu i lefelau cyn y pandemig.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r iaith Gymraeg yn ffynnu**

- Mae ymgysylltiad oedolion â’r celfyddydau a diwylliant yn sefydlog (mae 72% yn cymryd rhan mwy na 3 gwaith y flwyddyn); mae cyfranogiad plant wedi gostwng.
- Mae cyfranogiad oedolion mewn chwaraeon wedi cynyddu yn y tymor hir ond wedi gostwng yn 2024–2025; syrthiodd chwaraeon ysgol yn ôl i lefelau 2013.

- Mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng (Cyfrifiad 2021); mae defnydd dyddiol yn sefydlog ar 11%.
- Mae achrediadau amgueddfeydd ac archifau wedi cynyddu; mae cyflwr adeiladau rhestredig wedi gwella ychydig; mae henebion cofrestredig wedi dirywio.

**Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang**

- Roedd allyriadau nwyon tŷ gwydr i lawr 6% yn 2023 a 38% ers y flwyddyn sylfaen.
- Mae Cymru'n dal i ddefnyddio mwy na dwywaith ei chyfran deg o adnoddau'r byd.
- Mae cyfranogiad mewn addysg dinasyddiaeth fyd-eang yn parhau yn gryf.
- Mae cyllidebau carbon (cyfnodau 5 mlynedd) a thargedau degawdol yn gosod terfynau ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.
- Nod y ddau fecanwaith yw sicrhau bod Cymru'n aros ar y trywydd iawn ar gyfer sero net erbyn 2050 (cydbwysedd rhwng allyriadau ac alldyniadau).

## Effeithiau Penderfyniadau Allweddol

Mae'r Gyllideb Derfynol yn cynnal y strategaeth a nodir yn y Gyllideb Ddrafft ac yn cyflwyno dyraniadau wedi'u targedu i ddiogelu gwasanaethau hanfodol, ymateb i ragolygon chwyddiant a chyflog wedi'u diweddaru, a chryfhau atal, gwydnwch a gwerth am arian yn yr hirdymor. Mae pob Prif Grŵp Gwariant (MEG) yn derbyn codiadau priodol - naill ai o ganlyniad i gytundeb y gyllideb yn achosion Iechyd a Llywodraeth Leol neu drwy addasiadau sy'n adlewyrchu rhagolygon diwygiedig y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, gan gefnogi cyflawni parhaus ar draws portffolios.

**Cipolwg ar ganfyddiadau allweddol**

- **Iechyd a Gofal Cymdeithasol**: Mae cynnydd mewn adnoddau yn sefydlogi mynediad at wasanaethau'r GIG ac yn cefnogi ansawdd y gofal.
- **Llywodraeth Leol**: Mae setliad cryfach yn cynnal gwasanaethau statudol ac ataliol ac yn cefnogi sefydlogrwydd economaidd trwy ryddhad ardrethi trosiannol.
- **Trafnidiaeth**: Mae cyllid adnoddau a chyfalaf wedi'i dargedu yn diogelu cysylltedd bysiau ac yn paratoi ar gyfer masnachfreinio, gan wella mynediad cyfartal i swyddi, dysgu a gwasanaethau.
- **Addysg**: Mae cyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a chyfranogiad addysg bellach yn lleihau rhestrau aros ac yn gwella cynhwysiant; mae cyllid cyfalaf yn gwella cyflwr ac addasrwydd ystad yr ysgol a'r coleg.

- **Cyfiawnder Cymdeithasol**: Mae cyllid drwy'r MEG Cyfiawnder Cymdeithasol, ochr yn ochr â chyllidebau eraill Llywodraeth Cymru, yn cyfrannu at fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, hyrwyddo hawliau dynol a gwella llesiant pawb yng Nghymru.
- **Hinsawdd, Gwledig a'r Amgylchedd**: Mae buddsoddiad pellach mewn rheoli perygl llifogydd, gorfodi ansawdd dŵr, pysgodfeydd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cryfhau gwydnwch amgylcheddol ac yn lleihau costau yn y dyfodol.
- **Sgiliau, Diwylliant a'r Gymraeg**: Mae buddsoddiad yn cynnal y biblinell brentisiaethau ac yn cryfhau seilwaith diwylliant a'r iaith Gymraeg, a chyfranogiad ynddynt.
- **Tai a Lleoliadau**: Mae Cyfalaf Trafodiadau Ariannol a ddefnyddir ar gyfer adfywio canol trefi a chyllid ôl-osod cartrefi yn cyflymu twf lleol a datgarboneiddio.

## <u>Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Cynnydd o £180m mewn adnoddau</u>

### Pam y gwnaethom y penderfyniad hwn

Mae pwysau galw, chwyddiant a dynameg cyflog yn parhau i effeithio ar gostau a chapasiti ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Heb adnoddau ychwanegol, byddai byrddau iechyd wedi wynebu cyllidebau llawer iawn tynnach, sy'n gofyn am fesurau manylach ar gyfer arbed costau, gan arwain at risgiau cynyddol i fynediad, perfformiad a thegwch - yn enwedig i bobl hŷn, pobl anabl a'r rhai mewn cymunedau mwy difreintiedig.

### Beth mae hyn yn ei gyflawni / pwy sy'n cael ei effeithio

- **Cleifion a theuluoedd:** Mynediad parhaus at wasanaethau craidd a lleihau'r risg o oedi wrth geisio triniaeth.
- **Integreiddio â gofal cymdeithasol:** Mae'r setliad Llywodraeth Leol cryfach yn cefnogi llwybrau rhyddhau a chapasiti cymunedol, gan leihau derbyniadau y gellir eu hosgoi a hyd yr arhosiad.
- **Sefydlogrwydd y gweithlu:** Yn cefnogi recriwtio a chadw mewn marchnad lafur gystadleuol.

### Atal ac effaith tymor hir

Mae sefydlogi gwasanaethau craidd yn lleihau uwchgyfeirio i ymyriadau cost uwch ac yn diogelu gwydnwch y system, enghraifft o waith atal a'r ffyrdd hirdymor o weithio.

## <u>Setliad Llywodraeth Leol: £112.8 miliwn o gynnydd mewn adnoddau a rhyddhad ardrethi trosiannol</u>

### Pam y gwnaethom y penderfyniad hwn

Mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau statudol ac ataliol sy'n sylfaenol i lesiant; ysgolion, gofal cymdeithasol, atal digartrefedd a darpariaeth gymunedol. Mae tystiolaeth a ddiweddarwyd yn dilyn gwaith craffu a rhanddeiliaid yn tynnu sylw at y risg o gwtogi gwasanaethau a phwysau acíwt, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol, darpariaeth ADY a digartrefedd, heb gymorth ychwanegol.

**Beth mae hyn yn ei gyflawni / pwy sy'n cael ei effeithio**

- **Plant, pobl ifanc a theuluoedd:** Mae cynghorau mewn sefyllfa well i allu cynnal darpariaeth ysgolion, cymorth ADY ac ymyriadau presenoldeb, a thrwy hynny amddiffyn cyfranogiad, cyrhaeddiad a chynhwysiant.
- **Pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref:** Mae adnodd wedi'i dargedu ar gyfer tai yn cryfhau gwasanaethau rheng flaen ac yn cefnogi'r sector i gynnal capasiti.
- **Busnesau a chymunedau:** Cyllid ar gyfer rhyddhad trosiannol ardrethi annomestig yn cyflwyno cynnydd fesul cam yn dilyn ailbrisio, gan lyfnhau effeithiau llif arian a chefnogi gwydnwch economaidd lleol.

**Atal ac effaith tymor hir**

Mae setliad sefydlog yn amddiffyn cymorth cynnar a gwasanaethau ataliol a all osgoi rhoi gofynion pellach ar systemau acíwt, gan gefnogi cyflenwi lleol teg a chynaliadwy.

**Codiadau trawslywodraethol ar gyfer chwyddiant a thâl**

**Pam y gwnaethom y penderfyniad hwn**

Cynyddodd rhagolygon chwyddiant a thâl diwygiedig y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer 2026–27 gostau mewnbwn ar draws portffolios. Mae cymhwyso codiadau cymesur i Brif Grwpiau Gwariant y tu allan i'r cytundeb cyllideb yn osgoi erydu pŵer prynu heb ei reoli a gostyngiadau heb eu cynllunio i wasanaethau.

**Beth mae hyn yn ei gyflawni / pwy sy'n cael ei effeithio**

- **Defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru:** Gellir cynnal rhaglenni, grantiau a chontractau, gan ddiogelu mynediad a pharhad.
- **Partneriaid cyflenwi a chadwyni cyflenwi:** Mae mwy o sicrwydd yn cefnogi gwerth am arian ac yn lliniaru'r risg o fethiant contract.

**Atal ac effaith tymor hir**

Mae addasiad amserol i bwysau costau yn atal ansefydlogi, yn cefnogi cyflenwi trefnus, ac yn osgoi costau adfer uwch yn ddiweddarach.

**Trafnidiaeth - diogelu cysylltedd bysiau, paratoi ar gyfer masnachfreinio a chefnogi rheilffyrdd**

**Pam y gwnaethom y penderfyniad hwn**

Mae gwasanaethau bysiau yn un o'r elfennau craidd sy'n galluogi mynediad at addysg, cyflogaeth, gofal iechyd a chyfranogiad cymdeithasol, yn enwedig i bobl ifanc, pobl anabl, ac aelwydydd incwm isel a gwledig lle mae perchnogaeth ceir yn is. Mae tystiolaeth yn dangos bod cymhorthdal ar gyfer bysiau yn ddosbarthiadol flaengar. Mae angen buddsoddiad cyfalaf nawr i baratoi depots a fflyd ar gyfer masnachfreinio ac i sicrhau mynediad teg i'r farchnad i weithredwyr.

**Beth mae hyn yn ei gyflawni / pwy sy'n cael ei effeithio**

- **Cymunedau a dysgwyr:** Mae cyllid adnoddau yn diogelu'r ddarpariaeth fysiau bresennol, gan gynnal cysylltiadau ag addysg bellach, ysgolion, gweithleoedd a gwasanaethau.

- **Teithwyr a gweithredwyr:** Mae buddsoddiad cyfalaf mewn depots a fflyd yn cefnogi gwasanaethau dibynadwy, diogel ac effeithlon a throsglwyddiad llyfnach i fasnachfreinio.
- **Defnyddwyr rheilffyrdd:** Mae adnoddau wedi'u targedu yn sefydlogi gwasanaethau rheilffyrdd o fewn y flwyddyn lle mae pwysau'n acíwt.

**Atal ac effaith tymor hir**

Mae cynnal cysylltedd yn lliniaru allgáu, yn cefnogi economïau lleol ac yn lleihau costau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig ag ymddieithrio o addysg, cyflogaeth a gofal iechyd.

**<u>Addysg – ariannu darpariaeth systemau ADY, cyfranogiad addysg bellach a chyfalaf ar gyfer ystad ysgolion/colegau</u>**

**Pam y gwnaethom y penderfyniad hwn**

Mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at y galw cynyddol am ddarpariaeth ADY a chymhlethdod yr anghenion, cyrhaeddiad a phresenoldeb anghyfartal parhaus, costau trafnidiaeth uwch, y galw a'r rhestrau aros am addysg arbenigol a lleoedd addysg bellach. Mae data am gyflwr yr ystad yn dangos gwyriad o "dda" (Categori B) i "wael" (Categori C) mewn rhannau o'r ystad ysgolion, gyda goblygiadau ar gyfer llesiant, hygyrchedd ac effeithlonrwydd ynni.

**Beth mae hyn yn ei gyflawni / pwy sy'n cael ei effeithio**

- **Dysgwyr ag ADY a'u teuluoedd:** Mae adnoddau ychwanegol yn cryfhau capasiti prif ffrwd a chysondeb cenedlaethol.
- **Pobl ifanc (16-19 oed):** Mae cyllid addysg bellach yn lleihau rhestrau aros ac yn cynyddu'r niferoedd sy'n symud ymlaen i hyfforddiant, gwaith neu astudiaethau pellach.
- **Pob dysgwr a chymuned:** Mae buddsoddiad cyfalaf yn yr ystad yn gwella diogelwch, hygyrchedd (gan gynnwys ar gyfer ADY), yn annog twf cyfrwng Cymraeg, parodrwydd digidol, a pherfformiad ynni, pob un ohonynt yn cefnogi gwell presenoldeb a deilliannau dysgu.

**Atal ac effaith tymor hir**

Mae cymorth cynnar a chynhwysol yn lleihau'r angen am ymyriadau arbenigol; mae adeiladau modern, effeithlon yn lleihau costau cylch bywyd ac allyriadau carbon, ac yn gwella amodau dysgu dros y tymor hir.

**<u>Yr Economi, Ynni a Chynllunio – cyllid ychwanegol ar gyfer prentisiaethau a llwybrau cynhwysol</u>**

**Pam y gwnaethom y penderfyniad hwn**

Mae prentisiaethau yn ganolog i'r biblinell sgiliau, cynhyrchiant a thwf cynhwysol. Mae risg cyflawni yn dal i fodoli yn erbyn yr ymrwymiad 100,000 o gyfleoedd, sy’n gofyn am adnodd wedi'i dargedu. Mae cymorth ychwanegol i bobl ifanc ag ADY yn Twf Swyddi Cymru+ yn mynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad a dilyniant.

**Beth mae hyn yn ei gyflawni / pwy sy'n cael ei effeithio**

- **Dysgwyr a chyflogwyr:** Mae buddsoddi mewn prentisiaethau yn sicrhau lleoedd mewn sectorau blaenoriaeth ac yn cryfhau llwybrau i gyflogaeth barhaus.
- **Pobl ifanc ag ADY:** Mae gwell cymorth yn gwella mynediad at hyfforddiant a gwaith, gan leihau'r risg o ganlyniadau NEET.

**Atal ac effaith tymor hir**

Mae buddsoddi mewn sgiliau yn cynyddu'r potensial enillion ac yn lleihau creithiau o ddiweithdra; mae gwell ymlyniad cynnar i'r farchnad lafur yn gwella cynhyrchiant a derbyniadau treth dros amser.

**Newid Hinsawdd a Materion Gwledig – cyllid ar gyfer perygl llifogydd, ansawdd dŵr, pysgodfeydd a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

**Pam y gwnaethom y penderfyniad hwn**

Mae risgiau llifogydd ac erydu arfordirol, pryderon am ansawdd dŵr, a phwysau ar amgylcheddau morol ac amaethyddol yn cyflwyno costau cymdeithasol, economaidd ac ecolegol sylweddol. Mae buddsoddiad wedi'i dargedu bellach yn lleihau atebolrwyddau yn y dyfodol ac yn cefnogi pontio cyfiawn ar gyfer cymunedau gwledig ac arfordirol.

**Beth mae hyn yn ei gyflawni / pwy sy'n cael ei effeithio**

- **Aelwydydd a busnesau mewn ardaloedd risg:** Mae mwy o gyllid perygl llifogydd yn gwella amddiffyniad, gwydnwch a'r gallu i adfer.
- **Cymunedau ac ecosystemau:** Mae gorfodi ansawdd dŵr yn cyflymu cydymffurfiaeth a gwelliannau amgylcheddol. Mae cyllid pysgodfeydd yn cefnogi cynaliadwyedd a hyfywedd economaidd arfordirol.
- **Ffermwyr a rheolwyr tir:** Mae cefnogaeth i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn sail i ganlyniadau amgylcheddol a gwydnwch busnes.
- **Stiwardio'r system:** Mae adnodd ychwanegol i Cyfoeth Naturiol Cymru yn cryfhau swyddogaethau a goruchwyliaeth statudol.

**Atal ac effaith tymor hir**

Mae buddsoddi cyn risg yn lleihau costau difrod yn y dyfodol, yn diogelu seilwaith a chynefinoedd critigol, ac yn cefnogi amcanion datgarboneiddio ac adfer natur Cymru.

**Tai, Lleoedd ac Adfywio - defnyddio Cyfalaf Trafodiadau Ariannol**

**Pam y gwnaethom y penderfyniad hwn**

Mae cyfalaf preifat yn aml yn amharod i fuddsoddi mewn ailddatblygu canol trefi ar gam cynnar neu ôl-osod cartrefi ar gyfer aelwydydd sy'n gallu ad-dalu benthyciadau ond heb gyfalaf ymlaen llaw. Mae defnyddio Cyfalaf Trafodiadau Ariannol trwy awdurdodau lleol fel cyfryngwyr yn llenwi bylchau yn y farchnad ac yn cyflymu cyflawni.

**Beth mae hyn yn ei gyflawni / pwy sy'n cael ei effeithio**

- **Canol trefi ac economïau lleol:** Mae benthyca Trawsnewid Trefi yn datgloi prosiectau adfywio sy'n cyd-fynd â chynlluniau creu lleoedd, gan gefnogi swyddi lleol a nifer yr ymwelwyr.
- **Perchnogion tai a'r hinsawdd:** Mae cyllid Cartrefi Gwyrdd Cymru yn galluogi uwchraddio effeithlonrwydd ynni a gwresogi carbon isel, gan leihau biliau ac allyriadau.

**Atal ac effaith tymor hir**

Mae adfywio yn seiliedig ar leoedd yn atal dirywiad ac yn cefnogi twf cynhwysol. Mae ôl-osod yn osgoi costau ynni yn y dyfodol ac yn cyfrannu at lwybrau sero net.

**Cymraeg, Diwylliant a Chwaraeon - cyfalaf wedi'i dargedu ar gyfer cyfranogiad a mynediad**

**Pam y gwnaethom y penderfyniad hwn**

Mae seilwaith diwylliant a'r Gymraeg yn sail i gyfranogiad, hunaniaeth, sgiliau a llesiant, gyda manteision arbennig i bobl ifanc a chymunedau sydd â mynediad cyfyngedig at gyfleusterau. Gall cyfalaf cymedrol, wedi'i dargedu'n dda ddatgloi gwerth cymunedol sylweddol.

**Beth mae hyn yn ei gyflawni / pwy sy'n cael ei effeithio**

- **Plant, pobl ifanc a dysgwyr:** Cyfalaf ychwanegol i bartneriaid **Cymraeg 2050:** Partneriaid (gan gynnwys yr Urdd, yr Eisteddfod a'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol) yn ehangu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol.
- **Cymunedau ledled Cymru:** Mae buddsoddiad wedi'i dargedu yng nghyfleusterau'r celfyddydau a chwaraeon (drwy Gyngor Celfyddydau Cymru a Chwaraeon Cymru) yn ehangu cyfranogiad, yn gwella hygyrchedd ac yn cefnogi iechyd a llesiant yn lleol.

**Atal ac effaith tymor hir**

Mae cyfranogiad parhaus mewn diwylliant, iaith a chwaraeon yn cefnogi iechyd meddwl, cydlyniant cymdeithasol a datblygu sgiliau, gyda manteision parhaus i unigolion a lleoedd.

**Sicrwydd refeniw a gallu sefydliadol - mesurau dethol**

**Pam y gwnaethom y penderfyniad hwn**

Mae buddsoddiadau bach, wedi'u targedu sy'n gwella cydymffurfiaeth a chasglu - megis cryfhau gweithgarwch gorfodi ar gyfer trethi datganoledig - yn darparu enillion cadarnhaol ac yn diogelu tegwch a chynaliadwyedd y system dreth.

**Beth mae hyn yn ei gyflawni / pwy sy'n cael ei effeithio**

- **Trethdalwyr a gwasanaethau cyhoeddus:** Mae casglu refeniw teg ac effeithiol yn cefnogi uniondeb y system ac yn helpu i ariannu gwasanaethau blaenoriaeth heb faich ychwanegol ar drethdalwyr sy'n cydymffurfio.

**Atal ac effaith tymor hir**

Mae cydymffurfiaeth barhaus yn lleihau gollyngiadau, yn gwella gwydnwch cyllidol ac yn cefnogi cynllunio tymor hir.

**Effeithiau cronnus a thrawsbynciol**

Mae'r pecyn wedi'i gynllunio i liniaru anfantais gronnol ac atgyfnerthu buddion cydweithredol:

- **Plant a phobl ifanc (gan gynnwys ADY):** Mae cyllid cyfranogiad ADY ac addysg bellach, ynghyd â gwelliant yng nghyflwr yr ystad a chysylltedd bysiau gwarchodedig, yn lleihau risgiau allgáu ac yn cryfhau symud i hyfforddiant a chyflogaeth.
- **Aelwydydd incwm isel a gwledig:** Mae cefnogaeth i wasanaethau bysiau a llywodraeth leol yn cynnal mynediad lle mae perchnogaeth ceir yn is a chapasiti cymunedol yn gyfyngedig; mae buddsoddiad llifogydd yn lleihau amlygiad i risg a cholledion yn y dyfodol.
- **Diwylliant a'r Gymraeg:** Mae cyfalaf ar gyfer Cymraeg 2050 a seilwaith diwylliannol yn ehangu'r ddarpariaeth a'r defnydd, gan wella cydlyniant a hunaniaeth gymunedol.
- **Gwydnwch y system ac atal:** Mae perygl llifogydd, ansawdd dŵr, ôl-osod a buddsoddiadau yn yr ystad ysgolion yn lleihau costau ariannol ac amgylcheddol tymor hir, gan alinio â'r pum ffordd o weithio.

## Astudiaeth Achos: Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

**Y penderfyniad**

Mae'r Gyllideb hon yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn darpariaeth ADY, gan ddarparu £5m arall drwy'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol er mwyn cefnogi ffordd o ddiwygio ADY sy'n gyson yn genedlaethol—gan ddod â'r elfen ddiwygio i £37m y flwyddyn o 2026–27. Mae cyllid o £4m wedi'i osod yn llinell sylfaen y Grant Cymorth Rhanbarthol i helpu gyda symud Cydlynwyr ADY (CADY) i'r raddfa gyflog arweinyddiaeth, ac mae £4.1m wedi'i ddyrannu i Medr i gryfhau cymorth a chapasiti systemau ADY mewn colegau.

Mae'r penderfyniad hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i hawliau'r plentyn: rhoi budd gorau plant a phobl ifanc wrth wraidd penderfyniadau buddsoddi a sicrhau mynediad teg at addysg gynhwysol, uchel ei hansawdd.

**Beth roedd y dystiolaeth yn ei ddweud wrthym**

- **Galw cynyddol a chymhlethdod**: Mae awdurdodau lleol a gweithlu ysgolion yn nodi nifer cynyddol o ddysgwyr sydd angen cymorth, costau cludiant cynyddol, ochr yn ochr ag anghenion dysgu, gofal iechyd, ymddygiad a llesiant cynyddol gymhleth. Mae hyn wedi arwain at bwysau sylweddol ar ysgolion prif ffrwd, gwasanaethau arbenigol ac awdurdodau lleol.
- **Bylchau cyrhaeddiad yn ehangu**: Mae'r bwlch rhwng dysgwyr ag ADY a dysgwyr heb ADY wedi cynyddu yng Nghyfnod Allweddol 4, gyda dadansoddiad hirdymor yn dangos bod adnabod ADY yn rhagfynegydd cryf ar gyfer cyrhaeddiad is.
- **Absenoldeb cyson a gwaharddiadau**: Mae dysgwyr ag ADY yn profi cyfraddau uwch o absenoldeb cyson ac mae gwaharddiadau tymor penodol a rhai parhaol yn cael effaith anghymesur arnynt. Mae cysylltiad cryf rhwng hyn a deilliannau hirdymor gwaeth.
- **Pontio ôl-16:** Mae'r dystiolaeth yn dangos heriau mawr ar adegau pontio, gyda mwy o ddysgwyr ag ADY yn dod yn NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) neu'n ei chael yn anodd manteisio ar addysg bellach brif ffrwd oherwydd llwybrau cymorth ac adnabod anghyson.
- **Straen ar y system heb fuddsoddiad**: Mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn nodi dibyniaeth gynyddol ar leoliadau annibynnol costus a chostau cludiant cynyddol, gan adlewyrchu capasiti prif ffrwd annigonol.
- **Profiad plant a'u teuluoedd:** Mae'r gwerthusiad yn amlygu tystiolaeth sy'n dangos bod rhai plant a phobl ifanc yn wynebu oedi o ran adnabod anghenion, cymorth araf neu annigonol, gwybodaeth a phenderfyniadau anghyson, a rhieni mewn rhai achosion yn eu tynnu o'r ysgol yn sgil anghenion heb eu diwallu.
  Heb fuddsoddiad wedi'i dargedu, dangosodd y dystiolaeth hon y byddai anghydraddoldebau yn dyfnhau, y byddai costau'n codi, y byddai'r gwaith o gyflawni'r diwygiadau ADY o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn cael ei danseilio, ac y byddai effaith bellach ar brofiad a deilliannau plant a phobl ifanc mewn addysg.

**Pam ein bod wedi buddsoddi**

Mae'r buddsoddiad yn cryfhau'r gwaith o gyflawni diwygiadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, yn cefnogi gweithlu medrus, ac yn darparu sefydlogrwydd i awdurdodau lleol a cholegau ar adeg o angen cynyddol. Mae'n sicrhau y gellir cynnal ymyrraeth gynnar ac ymarfer cynhwysol, gan leihau costau'r system drwy lai o ddibyniaeth ar ddarpariaeth ddrud y tu allan i'r sir, a gwella capasiti y system brif ffrwd ar gyfer diwallu anghenion a gwella deilliannau i ddysgwyr ledled Cymru.

**Yr effeithiau cadarnhaol a ddisgwylir**

- Gwell profiad a deilliannau i ddysgwyr drwy gefnogi ac adnabod anghenion mewn modd mwy prydlon a chyson i ddileu rhwystrau i ddysgu
- Mwy o bresenoldeb ac ymgysylltiad yn sgil darpariaeth fugeiliol ac arbenigol fwy cadarn, cymorth wedi'i deilwra ac ymyrraeth gynnar
- System fwy cynaliadwy, gyda darpariaeth brif ffrwd gryfach yn lleihau'r galw am leoliadau arbenigol nas cynhelir
- Trefniadau pontio mwy effeithiol i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth, gyda chymorth gwell capasiti ADY mewn colegau
- Gweithlu a chanddo well adnoddau a chefnogaeth, gan gynnwys CADY, athrawon arbenigol, cymorth dysgu ac ymarferwyr addysg bellach

**Heb y buddsoddiad hwn:**

- Byddai bylchau o ran cyrhaeddiad, presenoldeb a chyfranogiad mewn addysg i ddysgwyr ag ADY yn ehangu ymhellach
- Byddai awdurdodau lleol yn wynebu pwysau ariannol a statudol cynyddol, gan gynnwys pwysau am ddarpariaeth arbenigol, oedi wrth adnabod ADY, ac anghysondeb o ran gweithredu cyfrifoldebau statudol Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
- Byddai capasiti prif ffrwd anghyson neu annigonol yn arwain at lefelau uwch o absenoldeb, gwaharddiadau a mwy o ddysgwyr yn manteisio ar ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol neu addysg ddewisol yn y cartref, gan arwain at ddatgysylltu yn y tymor hir oddi wrth lwybrau prif ffrwd i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth, a allai arwain at anfantais i blant a phobl ifanc.
- Byddai heriau pontio i addysg bellach yn gwaethygu, gan gynyddu'r risg o gyfranogiad gwael, lefelau cymwysterau is, cyfraddau NEET uwch, diweithdra ymhlith pobl ifanc a dibyniaeth hirdymor ar wasanaethau lles a chyhoeddus i ddysgwyr ag ADY.

**Casgliad**

Mae'r buddsoddiad hwn yn benderfyniad **ataliol, seiliedig ar dystiolaeth** sy'n ymateb yn uniongyrchol i bwysau o ran y system ac anghydraddoldebau sy'n ehangu. Mae'n cryfhau sylfeini'r diwygiadau ADY, yn gwella deilliannau tymor hwy i ddysgwyr ag ADY ac yn cyfrannu atynt, ac yn cefnogi system addysg gynaliadwy a chynhwysol ledled Cymru.

## Astudiaeth Achos: Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

**Y penderfyniad**

Rydym wedi blaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf yn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gan ddarparu £7.1m ychwanegol yn 2026–27. Mae hyn yn cefnogi'r rhaglen dreigl naw mlynedd (a drawsnewidiwyd yn 2024) sy'n cynnwys 329 o brosiectau a buddsoddiad arfaethedig o £5.5bn ar brisiau 2024. Mae hi'n parhau i fod yn rhaglen ddeuol, ategir cyfalaf traddodiadol gan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol sy'n darparu cyflenwad cyfwerth cyfalaf pellach gwerth £500m. Mae'r gyllideb adnoddau wedi'i diogelu ar £15.8m yn 2026–27 i amddiffyn gwaith cyflawni.

**Beth roedd y dystiolaeth yn ei ddweud wrthym**

- **Tueddiadau o ran cyflwr**: Ledled Cymru, gostyngodd cyfran yr ysgolion mewn cyflwr da (Categori B) o 61.3% (2013) i 44.3% (2023), gyda chyfran yr ysgolion mewn cyflwr gwael (Categori C) wedi codi o 25.1% i 39.7%, sy'n awgrymu ôl-groniad sylweddol mewn gwaith cynnal a chadw, gan olygu llai o ysgolion yn haen ganol yr ystad. Gwellodd Categori A yn gymedrol; crebachodd Categori D - ond mae bloc mawr wedi llithro i mewn i Gategori C, yn enwedig mewn rhai awdurdodau.
- **Polareiddio ac anghydraddoldeb**: Mae'r data yn dangos llwybrau lleol sy'n mynd yn groes i'w gilydd—rhai ardaloedd yn codi asedau i Gategori A; rhai eraill yn gweld dirywiad amlwg i Gategori C—gan greu profiad dysgwr a phroffiliau risg anghyson.
- **Costau a gwydnwch**: Mae gwaith cynnal a chadw gohiriedig ac adeiladau sydd wedi dyddio yn arwain at gostau gweithredu uwch, aneffeithlonrwydd carbon ac ynni, a rhwystrau mynediad (gan gynnwys addasrwydd ar gyfer ADY, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a defnydd cymunedol). Mae hyn yn tanseilio lles a gwaith cyflwyno'r cwricwlwm.

**Pam ein bod wedi buddsoddi**

Roedd y dystiolaeth yn dangos angen brys i atal dirywiad, adfer safonau teg, a diogelu'r ystad ar gyfer y dyfodol yn erbyn chwyddiant, pwysau o ran y gadwyn gyflenwi, a hanfodion o ran yr hinsawdd. Mae rhaglen dreigl, aml-flwyddyn yn galluogi dilyniannu strategol (disodli, adnewyddu, maint cywir), yn cynnal momentwm o ran y gwaith cyflawni, ac yn cefnogi cydbwysedd rhanbarthol.

**Yr effeithiau cadarnhaol a ddisgwylir**

- Deilliannau a lles dysgwyr: mae cyfleusterau modern, hygyrch, wedi'u galluogi yn ddigidol yn gwella presenoldeb, ymgysylltu a chyrhaeddiad, yn enwedig i ddysgwyr difreintiedig a'r rhai sydd ag ADY.
- Tegwch a chynhwysiant: mae blaenoriaethu'r asedau â'r cyflwr gwaethaf yn lleihau gwahaniaethau rhanbarthol, yn cefnogi ehangu cyfrwng Cymraeg, ac yn darparu gwell gofod ar gyfer ymarfer cynhwysol.
- Cynaliadwyedd ariannol: mae cyfalaf rhagweithiol yn lleihau ôl-groniadau cynnal a chadw a chostau cylch oes, gan leddfu'r pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol.
- Hinsawdd a natur: mae asedau newydd a rhai wedi'u hadnewyddu yn darparu effeithlonrwydd ynni, allyriadau is, a gwydnwch—gan gefnogi targedau datgarboneiddio.
- Gwerth cymunedol: Mae ysgolion sydd wedi'u cynllunio ar gyfer mynediad cymunedol a rennir yn cryfhau lles a chyfranogiad cymdeithasol lleol.

**Heb gyfalaf parhaus:**

- Byddai dirywiad y cyflwr yn cyflymu, gan ehangu anghydraddoldebau rhanbarthol a chynyddu risgiau iechyd, diogelwch a hygyrchedd.
- Byddai amgylcheddau dysgu yn dirywio, gan ddal yn ôl gyflwyno'r cwricwlwm a darpariaeth gynhwysol (gan gynnwys ADY).
- Byddai costau oes gyfan yn cynyddu, gyda gwaith cynnal a chadw ymatebol brys yn cymryd lle buddsoddiad wedi'i gynllunio ac yn dirywio gwydnwch awdurdodau lleol.
- Byddai'r amseroedd aros/cyflwr yn gwaethygu os na chaiff adnoddau'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol eu diogelu, gan danseilio gwerth am arian a hyder wrth gyflawni.
- Byddai aneffeithlonrwydd carbon ac ynni yn parhau, gan gynyddu pwysau refeniw a methu nodau hinsawdd.

**Casgliad**

Mae'r buddsoddiad hwn yn benderfyniad ataliol, seiliedig ar dystiolaeth sy'n sefydlogi ac yn adnewyddu ystad addysg Cymru, yn gwella canlyniadau i ddysgwyr, yn lleihau costau hirdymor i'r sector cyhoeddus, ac yn cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i fuddsoddi £1.5bn yn nhymor y Senedd hon.

## Penderfyniadau Gwario ag Effeithiau Negyddol neu Anghymesur a Nodwyd

Er bod y Gyllideb Derfynol yn ceisio diogelu gwasanaethau hanfodol a chryfhau prosesau atal, gallai rhai penderfyniadau esgor ar effeithiau negyddol neu anghymesur ar gyfer grwpiau neu gymunedau penodol. Mae'r risgiau hyn yn adlewyrchu maint y pwysau sylfaenol a'r cyfyngiadau o ran yr adnoddau sydd ar gael. Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos lle gall effeithiau godi, yn seiliedig ar dystiolaeth a adolygwyd yn ystod proses yr SIIA.

**Trafnidiaeth: Cymorth ar gyfer gwasanaethau bysiau a phwysau o ran rheilffyrdd**

**Y penderfyniad:** Mae adnodd ychwanegol wedi'i ddyrannu er mwyn diogelu gwasanaethau bysiau a pharatoi ar gyfer masnachfreinio, ochr yn ochr â chymorth canol blwyddyn wedi'i dargedu ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd.

**Pam mae hyn yn bwysig:** Mae cysylltedd bysiau yn hanfodol ar gyfer mynediad cyfartal at addysg, cyflogaeth a gwasanaethau iechyd, yn enwedig i bobl ifanc, pobl anabl ac aelwydydd ar incwm isel. Er bod y Gyllideb Derfynol yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn bysiau, mae cynnwys cymorth rheilffyrdd yn cyflwyno risg ddosbarthiadol.

**Y dystiolaeth:**

Mae ein Dadansoddiad Dosbarthiadol yn tynnu sylw at rai meysydd lle nad yw gwariant yn gynyddraddol. Er enghraifft, gwelir bod gwariant ar drafnidiaeth gyhoeddus yn ostyngraddol braidd ar y cyfan; er bod gwariant ar wasanaethau bysiau yn gynyddraddol, mae cymorthdaliadau rheilffyrdd yn tueddu i fod o fwy o fudd i aelwydydd ag incwm uwch.

**Effaith bosibl:** Gallai unrhyw newid cymharol tuag at gymhorthdal rheilffyrdd, hyd yn oed os yw'n gymedrol, atgyfnerthu patrymau atchweliadol, gyda'r manteision yn gwyro tuag at aelwydydd incwm uwch. Ymhlith grwpiau y byddai llai o gysylltedd bysiau yn effeithio fwyaf arnynt mae cymunedau gwledig, pobl ifanc a'r rhai nad ydynt yn gallu defnyddio trafnidiaeth breifat.

**Llywodraeth Leol a Thai: Cynyddu Setliad o gymharu â Phwysau Parhaus**

**Y penderfyniad:** Mae'r Gyllideb Derfynol yn darparu £112.8m yn ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol a £2.6m ar gyfer atal digartrefedd. Mae hyn yn cryfhau'r setliad ond nid yw'n llwyr ddatrys pwysau strwythurol.

**Y dystiolaeth:**

O'r dystiolaeth a gafwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, rydym yn ymwybodol o'r sefyllfa anodd y mae ysgolion ynddi, gyda chostau ADY yn gyfrifol am dros chwarter y pwysau cyllidebol a'r heriau recriwtio a chadw mewn ysgolion, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Rydym wedi gweld bod gwariant ar lety dros dro wedi tyfu wyth gwaith mewn 10 mlynedd, gyda bron i 11,000 o bobl mewn llety dros dro.

**Effaith bosibl:** Hyd yn oed gyda'r cynnydd, efallai y bydd angen i gynghorau wneud dewisiadau anodd, gan fentro gostyngiadau mewn gofal cymdeithasol, cymorth ADY a gwasanaethau digartrefedd. Byddai'r rhain yn cael effaith anghymesur ar grwpiau agored i niwed - plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl anabl a'r rhai sy'n profi ansicrwydd llety - yn enwedig mewn ardaloedd â lefelau uwch o amddifadedd.

**Addysg Bellach**

**Y penderfyniad:** Mae'r Gyllideb Derfynol yn dyrannu adnodd ychwanegol i gynyddu cyfranogiad mewn Addysg Bellach a lleihau rhestrau aros ar gyfer dysgwyr 16–19 oed.

**Y dystiolaeth:**

Mae Colegau Cymru wedi canfod bod twf mewn dysgwyr yn cael ei sbarduno gan gynnydd yn y niferoedd ar lefelau astudio is, yn enwedig ar Lefel 1 a Lefel Mynediad. Mae hyn yn creu pwysau yn sgil y nifer cynyddol o ddysgwyr ychwanegol, ond hefyd y lefel o gymorth sydd ei angen arnynt.

**Effaith bosibl:** Er y bydd y cyllid ychwanegol yn helpu, mae'r galw heb ei fodloni yn debygol o barhau, yn enwedig i ddysgwyr ar Lefel 1 a Lefel Mynediad y mae angen mwy o gymorth arnynt. Mae hyn yn creu risg o gyfraddau NEET uwch ac anfantais hirdymor i'r rhai sydd eisoes mewn mwy o risg economaidd-gymdeithasol.

**<u>Lliniaru a Monitro</u>**

Y tu hwnt i'r dyraniadau a wneir yn y Gyllideb Derfynol, bydd camau lliniaru pellach yn ceisio canolbwyntio ar y canlynol:

- Gweithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr i ddiogelu gwasanaethau ataliol craidd a monitro amrywiadau lleol.
- Cryfhau prosesau olrhain deilliannau ar draws mynediad i drafnidiaeth, cyfranogiad addysg bellach, darpariaeth ADY ac atal digartrefedd i nodi anghydraddoldebau newydd yn gynnar a chefnogi camau cywiro.

## Casgliad

Mae'r dull newydd hwn o ymgymryd â'r SIIA ar gyfer Cyllideb 2026-27 yn adlewyrchu ein hymrwymiad i fod yn fwy tryloyw ac i ymgysylltu'n ehangach o fewn Llywodraeth Cymru a chyda rhanddeiliaid allanol, i sicrhau bod effeithiau cronnol ein penderfyniadau gwariant yn cael eu hystyried yn ofalus ar bob cam o'r broses gyllidebol.

Mae'r adborth a gafwyd ar y dull gweithredu newydd, yn enwedig gan aelodau o'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Rydym wedi gallu ystyried rhai o'r argymhellion mewn pryd ar gyfer yr asesiad hwn, gan gynnwys darparu rhagor o fanylion ynghylch y dystiolaeth a ddefnyddir i wneud penderfyniadau gwario, cynnwys rhai astudiaethau achos ar effeithiau allweddol, a gwneud y ddogfen yn fwy hygyrch.

Os bydd y Llywodraeth nesaf yn cytuno, byddwn yn bwrw ymlaen â gwelliannau pellach ar gyfer Cyllideb 2027-28 yn canolbwyntio ar greu gwell cysylltiadau rhwng y dystiolaeth a'r penderfyniadau, mapio penderfyniadau yn gliriach o ran nodau llesiant a ffyrdd o weithio, a sicrhau ymgysylltu'n gynharach ac yn barhaus â grŵp mwy amrywiol o swyddogion Llywodraeth Cymru a all ddod ag ystod o safbwyntiau wrth ddatblygu'r SIIA.

Mae'r dull gweithredu hwn yn gam pwysig tuag at ymgorffori tryloywder a chydweithredu yn ein proses gyllidebol, gan sicrhau bod penderfyniadau yn cyfrannu at gyflawni deilliannau cadarnhaol i gymunedau ledled Cymru.